

Cofnodion cyfarfod 4/10/18

Presennol: Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Susan Davies, Dilys Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Carol Rowlands, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd** pawb gan Eifion Roberts, y Dirprwy Faer a derbyniwyd ymddiheuriadau Sharon Evans, Alun Price, Edith Roberts, Eluned Jones
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant mewn mater ar yr Agenda.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/9/18.
4. **Materion y Clerc:** Derbyniwyd adroddiad gan Is-bwyllgor Trefniadau'r Nadolig. Disgwylir i'r ffurflenni ceisiadau i fusnesau am goeden Nadolig fach gael eu dosbarthu ar 19/10/18. Oherwydd ei bod yn ganmlwyddiant diwedd y Rhyfel Mawr, bydd cynrychiolwyr o Awel y Coleg yn beirniadu'r ffenestri siopau eleni – gwobr ariannol fel arfer i elusen o ddewis y perchennog sy'n ennill Cyntaf, a cherdyn i gydnabod 2il a 3ydd i'w gyflwyno hefyd. Mae trefniadau Cinio Nadolig y Cyngor mewn llaw. Bydd angen gofyn am ganiatâd y Llywodraeth i gael goleuadau ar y coed a threfnu gyda Chyngor Gwynedd i'w goleuo.

Mae'r is-banel trafod cydnabod Betsi Cadwaladr ac enwogion eraill yn parhau i wyntyllu beth sy'n ymarferol bosib; bydd argymhellion yn dod i sylw'r Cyngor llawn.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, y Cynghorydd Sir. Addawodd sôn wrth yr Heddlu am drafferthion parcio, yn arbennig yn Ffordd y Gerddi. Mae'r cais am arolwg o balmentydd y Stryd Fawr wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd. Hysbysodd bawb o'r cyfarfod yn Ysgol y Berwyn i fynegi barn am sut u gellir cwtogi ar wariant. Adroddodd fod neuadd Ysgol y Berwyn yn adnodd arbennig iawn i'r ysgol ac i'r gymuned. Holodd farn y Cyngor am osod sustem wi-fi am ddim yn y Stryd Fawr; ar ôl trafod y costau cynnal sydd ym mhlyg yn hyn, ac ystyried fod 4G yn gweithio'n dda yn yr ardal, cytunwyd i beidio a gwneud cais an gael y cynllun hwn.
6. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc o'r Pwyllgor Ardal.
7. **Toiledau Cyhoeddus:** Mae'r gwaith o uwchraddio'r toiledau yn parhau.
8. **Materion Cynllunio:** Derbyniwyd gwybodaeth fod anecs ym Mryn y Groes yn cael ei ddymchwel.
9. **Materion Cyllid:**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol.

- ii. Derbyniwyd llythyr BDO yn mynegi nad ydynt wedi cwblhau'r archwiliad erbyn 30/9/18. Adroddodd y Clerc am y trafferthion o gael BDO i ddeall y gwahaniaeth rhwng cyfrifon Cyngor Y Bala a rhai Partneriaeth Penllyn, a diolchwyd i Luned Fôn, yr Archwilydd Mewnol, am ei chefnogaeth. Cytunwyd i anfon at Un Llais Cymru i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor gydag or-fanylu a diffyg dealltwriaeth BDO. Cytunwyd hefyd i ofyn i Partneriaeth Penllyn beidio defnyddio cyfrif Cyngor Tref Y Bala i dderbyn sieciau ar eu rhan gan Gyngor Gwynedd oherwydd y trafferthion gyda'r Archwilwyr Allanol.

10. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri: Ystyriwyd Materion yn Codi o ddogfen ymgynghorol Cynllun Datblygu Parc Cenedlaethol Eryri, sydd yn cynnwys tir adeiladu yn eiddo i Cartrefi Cymunedol Gwynedd a thir preifat sydd â hawl adeiladu arno ers blyneddau lawer. Mae'r ardal o gwmpas y Parc Busnes a'r Ystâd Ddiwydiannol yn parhau i'w gael ei warchod ar gyfer datblygiadau syn creu cyflogaeth.

Llywodraeth: Trafodwyd yr Ymgynghoriad ar ffyrdd sydd ddim wedi eu mabwysiadu a thir diffaith; bydd y Clerc yn anfon gwybodaeth am yr hyn a nodwyd gan y Cynghorwyr.

Gwynedd:

- i. Ystyriwyd y cynnig newydd i lenwi biniau halen a glynwyd wrth y penderfyniadau blaenorol i beidio a'u llenwi.
- ii. Trafodwyd yr Ymgynghoriad ar bwysigrwydd gwasanaethau Cyngor Gwynedd ac anogwyd pawb i ymateb. www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau <<http://www.gwynedd.llyw.cymru/blaenoriaethau>>
- iii. Trafodwyd Ymholiad gan Gyngor Gwynedd am gofrestru llwybrau a chytunwyd nad oes gan y Cyngor dystiolaeth o ddefnydd parhaol un llwybr a holwyd amdano (llwybr glas). Roedd bodlonrwydd fod Cyngor Gwynedd yn ceisio cofrestru llwybr y Sgotwyr (llwybr gwyrdd) ar hyd glan afon Tryweryn.
- iv. Derbyniodd y Maer wahoddiad i gynrychioli'r Cyngor Tref yng nghyfarfod sefydlu'r Parchedig Ddoctor Carol Roberts; mae croeso i bob un o'r Cynghorwyr fynychu'r gwasanaeth hefyd.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd gwybodaeth am y cyfarfod nesaf.

12. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr a soniodd am y broblem barhaol gyda jac-y-dos, yn arbennig yn y goeden wrth y lloches bws newydd. Bydd angen adnewyddu'r faner wrth y ganolfan Hamdden cyn hir. Erbyn hyn mae CNC wedi gosod y meinciau ar y llwybr newydd. Addawodd Dilwyn Morgan i holi Cyngor Gwynedd am leoliad diogel i osod mainc arall rhwng Awel y Coleg a'r dref. Cytunwyd i holi CNC am yr addewid i ostwng y *mesh* diogelwch wrth faes parcio'r Clwb Rygbi.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf: 1/11/18 – am 6.30pm; bydd hwn yn bennaf yn gyfarfod hyfforddiant Un Llais Cymru.